Rhifyn 128 1150 copi pob rhifyn – 1150 copies every issue **Edition 128**

CLECS BRO CADER

Cylchlythyr cymunedol ar gyfer ardal Pencader sy'n cynnwys

www.pencader.org.uk

A community newsletter for the Pencader area including

Alltwalis, Dolgran, Gwyddgrug, Llanfihangel-ar-Arth, New Inn, Pont Tyweli, Llanllwni

Rhagfyr 2024 **AM DDIM – FREE** **December 2024**



Ysgol Cae'r Felin

Bu'r ysgol gyfan lan i'r cofeb cofio yn y pentref am ddwy funud o dawelwch i gofio am y sawl aberthoedd eu bywydau yn ystod y gwahanol rhyfeloedd.

Cae'r Felin School

The whole school visited the village war memorial on Armistice Day for a 2 minute silence to remember the people who lost their lives in various wars.

Mae rhifyn hwn y cylchlythyr wedi cael ei ariannu gan grant oddi wrth
Gronfa Fudd Fferm Wynt Statkraft Alltwalis

This issue of the newsletter has been funded by a grant from
Statkraft Alltwalis Community Benefit Fund


Swyddogion Clecs Bro Cader **Clecs Bro Cader Officials**

Tîm Golygyddol / Editorial Team	Jane Griffiths	janegriffithsuk@btinternet.com
	Morgan Jones	morganjgibson@gmail.com
	Keith Pratt	pdrg@ffermffynnonwen.plus.com

Plus a little help from Steve Adams



Cynnwys	*Tudalen / Page*	*Index*
Cwtsh Natur	*1*	*Nature Cwtsh*
Ysgol Cae'r Felin	*3-4*	*Cae'r Felin School*
Ysgol Eglwys Llanllwni	*5-6*	*Llanllwni Church School*
Cylch Meithrin Llanllwni	*7*	*Llanllwni Cylch Meithrin*
Cylch Ti A Fi Llanllwni	*8*	*Cylch Ti A Fi Llanllwni*
Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-Arth	*8*	*Llanfihangel-ar-Arth Community Council*
Calan Gaeaf ym Mhafiliwn Pencader	*9*	*Halloween at Pencader Pavilion*
Nodiadau'r Natur	*10*	*Nature Notes*
CFfI Llanllwni	*11*	*Llanllwni YFC*
CFfI Llanllwni	*11*	*Llanllwni YFC*
Sefydliad y Merched Pencader	*12*	*Pencader Women's Institute*
Clwb Hanes Llanfihangel-ar-Arth	*12*	*Llanfihangel-ar-Arth History Club*
Stampiau wedi eu defnyddio	*12*	*Used Postage Stamps*
Newyddion Alltwalis	*13-14*	*Alltwalis Village News*
Merched y Wawr Pencader a'r Cylch	*15-16*	*Merched y Wawr Pencader a'r Cylch*
Merched Y Wawr Rhanbarth Caerfyrddin	*16*	*Merched Y Wawr, Carmarthenshire*
Cyfraddau Hysbysebu	*16*	*Advertising Rates*
Cymanfa Bwnc	*17*	*Cymanfa Bwnc*
Amserlenni eglwysi a chapeli	*18-19*	*Church and chapel timetables*
Coda Ni	*18*	*Coda Ni*
Canolfan Deuluol Pencader	*20*	*Pencader Family Centre*
Coda Ni Oedfa Plygain	*21*	*Coda Ni Oedfa Plygain*
Cronfa Cymunedol Fferm Wynt	*21*	*Wind Farm Community Fund*
Hysbysebion	*22-32*	*Advertisements*



Cyhoeddir y cylchlythyr hwn gan Grŵp Adfywiad Pencader a'r Cylch ac fe'i hargraffir gan Gwasg Gomer, Llandysul. Cymerir pob gofal i sicrhau fod cynnwys y cylchlythyr yn gywir ond ni allwn fod yn gyfrifol am unrhyw effaith fel canlyniad i unrhyw gamgymeriad.

Sylwch, plîs, mai'r barnau sy'n cael eu mynegi yma, yw rheiny'r awduron unigol ac nid o raid tîm Golygyddol neu'r rheiny'r Grŵp Adfywiad.

Anfonwch eich newyddion, erthyglau ac yn y blaen i:

janegriffithsuk@btinternet.com

erbyn **12fed** o'r mis cyn cyhoeddi.

Dyddiadau cyhoeddi 2024: Chwefror, Ebrill, Mehefin, Awst, Hydref a Rhagfyr

This newsletter is published by the Pencader and District Regeneration Group and printed by Gomer Press, Llandysul. We take care to ensure that the contents are correct as we cannot be liable for any consequences as a result of any mistake.

Please note that the opinions expressed here are those of the individual authors and not necessarily those of the editorial team or the Regeneration Group.

Please send contributions and comments to:

janegriffithsuk@btinternet.com

by the **12th** of the month before publication.

Publication dates for 2024: February, April, June, August, October and December

Ysgol Cae'r Felin

Ar ol 6 wythnos o wyliau Haf, mae'r holl ddisgyblion wedi dychwelyd yn frwfrydig ac wedi ymgartrefu nol mewn i'w dosbarthiadau newydd yn yr Ysgol.

Gwnaeth disgyblion blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 gymryd rhan yn Cwrdd Diolchgarwch yr Eglwys yn Neuadd yr Eglwys gyda Ficer Bonnie. Bu Blwyddyn 6 yn adrodd gweddiau a blynyddoedd 3 a 4 yn canu.

Cafwyd prynhawn da yn ein gwasanaeth Te Diolchgarwch yn neuadd yr Ysgol. Bu'r plant yn canu nifer o ganeuon i ddiddanu'r gynulleidfa. Yn ogystal, bu pob dosbarth yn coginio ar gyfer y wledd a ddilynodd i'r rhieni gyda'r Cyngor Ysgol yn helpu gweinyddu. Yn ol pob son roedd y Bara Brith yn fendigedig!!

Anghofiwch am Trump a Etholiadau America oherwydd pledleisiwyd am a dewiswyd aelodau newydd ar gyfer Cyngorau Ysgol, Eco a Digidol am y flwyddyn academaidd. Roedd y pledleisio yn frwd a'r canlyniadau yn agos iawn ymhob dosbarth. Da iawn bawb cafodd eu hethol

Cae'r Felin School

After a 6-week summer break, all the pupils have returned enthusiastically and settled back into their new classrooms.

The junior pupils took part in the Church's Harvest Service in the Church Hall with Vicar Bonnie. Year 6 pupils read prayers whilst years 3 and 4 sang a few Harvest songs.

We had a wonderful afternoon in the School's Harvest Tea service in the school hall. The children sang a number of songs to entertain the audience. In addition, each class cooked items for the feast that followed for parents with members of the School Council helping serve the tea and food. By all accounts, the Bara Brith tasted fab!!

Forget about Trump and the American elections because Cae'r Felin's School pupils voted and elected their new School, Eco and Digital Council members for the academic year. Voting was held in every classroom and was extremely close. Well done everyone that was chosen.



Bu Blwyddyn 6 allan yn pontio yn Ysgolion Uwchradd Emlyn a Bro Teifi cyn gorfod gwneud y dewis pwysig a mawr o ba Ysgol Uwchradd i fynychu blwyddyn nesaf.

Daeth Mr Urdd allan i ymweld a plant yr Ysgol mewn gwasanaeth gyda Gethin Roberts o'r Urdd i son am yr holl bethau mae'r Urdd yn ei wneud i blant Cymru. Diolch Gethin ac yn enwedig Mr Urdd am fod mor ffantastig.

Diolch yn fawr i'r Cyngor Ysgol am drefnu bore MacMillan yn yr Ysgol. Dyma ddigwyddiad blynyddol sy'n digwydd yn yr Ysgol i rhoi cyfle i rhieni gael paned o de a darn o dost i ddechrau eu diwrod. Casglwyd £100 at yr elusen pwysig yma. Diolch i bawb a ddaeth.

Year 6 pupils went to Emlyn and Bro Teifi secondary schools for transition days before they have to make the big and important decision on which secondary school to go to next year.

Mr Urdd visted the school along with Gethin from the Urdd to talk all about the good things the Urdd does for the children of Wales. Thank you Gethin and especially Mr Urdd for being fantastic as usual.

A big thank you to the School Council for arranging the annual MacMillan breakfast. This is an annual event which allows parents to start their day with a cuppa and a slice of toast. £100 was raised for this important charity. Thank you all who came.

Ysgol Cae'r Felin

Bu'r ysgol gyfan lan i'r cofeb cofio yn y pentref am ddwy funud o dawelwch i gofio am y sawl aberthoedd eu bywydau yn ystod y gwahanol rhyfeloedd.

Gwisgodd holl blant yr Ysgol eu dillad gwely ar Diwrnod plant mewn angen. Codod yr Ysgol £125.

Bu Siani Sionc allan gyda dosbarthiadau Tabo a Deina yn perfformio a canu iddynt. Diolch Siani am yr amser da a cyffrous.

Cafodd dosbarthiadau adran iau amser da a buddiol yn gwneud sesiynau 'Antur Amser' gyda Cwmni Menter Iaith Gorllewin Sir Gar. Bu'r sesiynau yn rhai hwylus. Diolch.

Penderfynwyd mewn cyfarfod Cyngor Ysgol y bydd yr Ysgol yn codi arian i'r Ganolfan Deuluol yn Pencader drwy gydol y flwyddyn.

Bu Nick Thomas O Gwmni Eto Allan Yn Cynnal Gweithdai Ar Cynnal Mwydod Gyda Dosbarth Deina A Blwyddyn 3 A 4. Fe Wnaeth Y Staff Mwynhau'r Sesiwn Mas Draw!

Bu Blwyddyn 5 a 6 i Ysgol Emlyn i weld perfformiad o sioe gerdd 'Oliver'. Am sioe gwych! Braf oedd gweld cyn ddisgyblion Cae'r Felin yn cymryd rhan blaenllaw yn y sioe. Da iawn chi a diolch Ysgol Emlyn am y croeso.

Braf oedd gweld cynnifer o rhieni yn ein noson agored blynyddol i ddathlu gwaith ein plant. Roedd yr ymateb yn frwd iawn. Da iawn chi blant.

Diolch i Tom Bucher-Flynn o 'Saving Brechfa's Bees' am ddod i'r Ysgol i drafod pwysigrwydd gwenyn yn yr ardd a creu cynefin i denu'r gwenyn.

Da iawn bawb cymrodd rhan yn rownd gyntaf cystadleuaeth coginio Cogurdd yn yr Ysgol. Hyfryd oedd gweld cynnifer o blant yn cymryd rhan. Roedd y safon yn uchel tu hwnt. Diolch yn fawr iawn hefyd i Annette Davies, Glanawmor am feirniadu. Pob lwc yn y rownd nesaf yn Ysgol Bro Myrddin i'r ennillwyr.

Eleni, bydd gwasanaeth Christingl yr Eglwys yn cael ei gynnal gyda Ficer Bonnie yn neuadd yr ysgol ar ddydd Mercher, Rhagfyr 11eg am 1.30 y prynhawn. Bydd plant yr adran iau yn cymryd rhan.

Cofiwch bydd yr Ysgol gyfan yn canu o amgylch y goeden ar Ddydd Mawrth, Rhagfyr y 10ed am 6 o'r gloch yr hwyr. Croeso i bawb, dewch yn eich dillad cynnes a sequins!

Ac yn wythnos diwetha'r tymor, ni'n mawr obeithio y bydd Sion Corn unwaith eto yn dod i ymweld a plant yr Ysgol. Ac I orffen 2024 ar nodyn hyfryd yma, hoffai pawb yn Ysgol Cae'r Felin ddymuno holl ddarllenwyr 'Clecs Bro Cader' ymhell ac agos - Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda.

Cae'r Felin School

The whole school visited the village war memorial on Armistice Day for a 2 minute silence to remember the people who lost their lives in various wars.

All the pupils dressed up in their pyjamas on Children in Need day. Over £125 was raised.

Siani Sionc came out to Tabo and Deina classes to perform and sing to thre pupils. Thank you Siani, everyone thoroughly enjoyed.

The junior section classes had a good session doing 'Antur Amser' with Cwmni Menter Iaith Gorllewin Sir Gar. The sessions were enjoybale and fun.

It was decided in a School Council meeting to raise money this year for the Family Centre in Pencader .

Nick Thomas from ETO, recycling centre, came out to hold workshops on the conservation of worms with both Deina class and year 3 and 4 class. The staff thoroughly enjoyed the session!

Years 5 and 6 went to Emlyn school to see a production of the show 'Oliver'. What a great show! It was also wonderful to see former pupils taking prominent parts in the show. Well done you and thank you Emlyn school for the welcome.

It was lovely to see so many parents in our annual opening evening to celebrate the pupils work. The reaction was positive. Well done all.

Thank you to Tom Bucher-Flynn from 'Saving Brechfa's Bees' for coming to the school to discuss the importance of bees in the garden and to create a space to attract bees.

Well done to everyone who took part in the first round of the Cogurdd cooking competition. It was great to see so many pupils taking part, the standards were very high indeed. A big thank you to Annette Davies from Glanawmor for judging the competition. Good luck to the winners who will now go on to the next round in Bro Myrddin.

This year, the Christingl service will be held by Vicar Bonnie on Wednesday, 11th December in the school hall at 1.30 p.m. The pupils of the junior classes will be taking part. There's a warm welcome to everyone.

Remember, the whole school will be outside singing around the Christmas Tree on Tuesday, December 10th at 6 pm. A warm welcome to all, do come in your warm clothes and sequins.

In the last week of term, we sincerely hope that Father Christmas will visit the school once again on his annual visit. And finally for 2024, on that wonderful note, everyone in Ysgol Cae'r Felin would like to wish all the readers of Clecs Bro Cader, near and far – Merry Christmas and a Happy New Year.

Ysgol Eglwys Llanllwni

Y tymor hwn, ein thema yn nosbarth Cyfnod Allweddol 2 ydy Chwyldro y Cymry. Rydym wedi bod yn brysur yn dysgu am yr Oes Fictoria ac astudio'r nofel 'A Christmas Carol' gan Charles Dickens. Mae'r disgyblion wedi mwynhau ysgrifennu a pherfformio sgript o'r stori.

I gyd fynd â'r thema Chwyldro y Cymry, bu'r disgyblion yn edrych mewn i ddeiet pobl o'r Oes Victoria, edrych ar fwydydd tymhorol a milltiroedd bwyd, felly aeth y dosbarth cyfan i bobi bara a chreu menyn eu hun. Dyna beth oedd hwyl! Maent hefyd yn brysur yn astudio Merched Beca.

Yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen, y thema ydy 'Cymru'. Mae'r disgyblion wedi bod yn brysur yn dysgu am gestyll a chwedlau Cymru. Maent wedi bod yn mwynhau astudio'r Hydref a Diolchgarwch.

Mae dosbarth y Cyfnod Sylfaen yn cael amser wrth eu boddau yn mynd i nofio a chael sesiynau ymarfer corff yng Nghalon Tysul bob dydd Gwener. Mae'r ysgol wedi bod yn ffodus iawn i dderbyn cyllid o Gronfa Budd Cymunedol Fferm Wynt Alltwalis Statkraft i ddarparu cwrs diogelwch dŵr unigryw am ddeg wythnos. Rydym mor ddiolchgar am y cyfle gwych hwn i'r plant bach.

Ar ddiwedd mis Medi, cymerodd disgyblion bl.3-6 rhan mewn twrnamaint pêl-droed yn Ysgol Dyffryn Cledlyn. Chwaraeodd pawb yn wych er gwaethaf yr holl law. Da iawn chi blant.

Mae disgyblion sy'n aelodau o'r Urdd wedi bod yn mynychu clwb yr Urdd ar ôl ysgol. Diolch i Gethin Roberts, Swyddog Cymunedol Gorllewin Myrddin yr Urdd am gynnal y sesiynau. Yn ddiweddar cafodd y disgyblion y profiad o ddysgu sut i chwarae Tipit. Buom yn lwcus iawn i gael ymweliad gan rywun pwysig iawn i'r ysgol – Mr Urdd wrth gwrs! Diolch yn fawr iddo am alw heibio i'n gweld. Roedd y disgyblion yn wên o glust i glust.

Cynhaliwyd cystadleuaeth Cogurdd yn Neuadd yr Eglwys ar 17eg o Hydref i aelodau'r Urdd. Bu disgyblion bl.4, 5 a 6 yn gweithio'n galed i greu wrap sawrus oer. Longyfarchiadau i Beca am ennill y gystadleuaeth. Llongyfarchiadau i Megan am ddod yn 2ail ac i Alys am ddod yn 3ydd. Da iawn i bawb a fu'n cystadlu a diolch i Mrs Gwen Jones am feirniadu'r gystadleuaeth.

➢



Llanllwni Church School

This term, our theme in the Key Stage 2 class is the Welsh Revolution. We have been busy learning about the Victorian Age and studying the novel 'A Christmas Carol' by Charles Dickens. The pupils have enjoyed writing and performing a script of the story.

As part of the Welsh Revolution theme, the pupils looked into the diet of Victorian people, they looked at seasonal foods and food miles, so the whole class baked bread and made their own butter. They had lots of fun! They are also very busy studying The Rebecca Riots.

In the Foundation Phase class, the theme this term is 'Wales'. The pupils have been busy learning about the castles and legends of Wales. They have been enjoying studying the Autumn and Thanksgiving.

Pupils from the Foundation Phase class have been having a great time going swimming and having P.E. sessions at Calon Tysul every Friday. The school has been very fortunate to receive funding from the Statkraft Alltwalis Wind Farm Community Benefit Fund to provide a unique water safety course for ten weeks. We are so grateful for this wonderful opportunity for the younger children.

At the end of September, year 3-6 pupils took part in a football tournament at Ysgol Dyffryn Cledlyn. Everyone played brilliantly despite the terrible rain! Well done to all of the pupils.

Pupils who are members of the Urdd have been attending the Urdd club after school. Thanks to Gethin Roberts, West Myrddin Urdd Community Officer for holding the sessions. Recently the pupils had the experience of learning how to play Tipit. We were very lucky to have a visit from someone very important to the school - Mr Urdd of course! Many thanks to him for dropping by to see us. The pupils were so excited to see him!

The Cogurdd competition was held in the Church Hall on 17th of October for members of the Urdd. Year 4, 5 and 6 pupils worked very hard to create a cold savoury wrap. Congratulations to Beca for winning the competition. Congratulations to Megan for coming 2nd and to Alys for coming 3rd. Well done to everyone who competed and thanks to Mrs Gwen Jones for judging the competition.

➢



Ysgol Eglwys Llanllwni

Yn dilyn yr hwyl a sbri o Cogurdd, cynhaliom ein cystadleuaeth Poburdd yn yr ysgol! Y dasg oedd pobi 4 myffin melys. Braf oedd gweld yr holl amrywiaeth o gacennau oedd y disgyblion wedi dod mewn i'r ysgol. Ar ddiwedd y gystadleuaeth, Corah ddaeth yn fuddugol. Daeth Sara yn 2ail a Poppy yn 3ydd. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd! Diolch i'r beirniaid, Miss Hayley Davies a Miss Charlotte Evans - treuliwyd y bore yn blasu myffins blasus pawb.



Cawsom ein Cwrdd Diolchgarwch yn Eglwys Sant Luc, Llanllwni ar ddydd Mercher, 23ain o Hydref, dan arweiniad yr Hybarch Eileen Davies. Fe wnaeth y disgyblion perfformio'n wych. Diolch i'r disgyblion ac i'r Hybarch Eileen am wasanaeth arbennig. Casglwyd bwyd a nwyddau ar gyfer Banc Bwyd Llandysul eleni. Diolch i rieni a ffrindiau'r ysgol am eu rhoddion.

Cynhaliwyd noson bingo yn Ysgol Llanllwni ar nos Iau, 24ain o Hydref. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi a llongyfarchiadau i bawb a fu'n llwyddiannus! Diolch enfawr i aelodau'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon am drefnu noson hyfryd iawn.

Bydd ein Gwasanaeth Nadolig yn cael ei gynnal eleni yn Eglwys Sant Luc ar ddydd Gwener, 20fed o Ragfyr am 1.30yp. Mae croeso cynnes i bawb ddod i weld y disgyblion yn perfformio.



Yn ystod yr hanner tymor hwn, mae clwb Actif-i-ti wedi bod yn cael ei gynnal bob nos Lun ar ôl ysgol gyda'r arweinydd Lleucu. Mae hyn yn gyfle grêt i'r plant cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff.

Byddwn yn cynnal gweithdy creu torch Nadolig yn yr ysgol ar nos Iau, 28ain o Dachwedd am 7yh yn Ysgol Llanllwni – cysylltwch â Caryl Jones i archebu lle ar 07870 727195. Mae noson Tipit wedi trefnu ar nos Sadwrn, 30ain o Dachwedd yn yr Eagle, Llanfihangel ar-arth am 7yh. Bydd yr elw yn mynd tuag at Gylch Meithrin Llanllwni ac Ysgol Eglwys Llanllwni. Croeso cynnes i bawb.

Edrychwn ymlaen at nifer o weithgareddau sydd i ddod yn ystod y tymor megis, diwrnod Plant Mewn Angen, diwrnod siwmper Nadolig, cinio a pharti Nadolig, gwylio pantomeim, a llawer mwy.

Llanllwni Church School

Following the fun and excitement of Cogurdd, we held our Poburdd competition at the school! The task was to bake 4 sweet muffins. It was nice to see all the variety of cakes the pupils had brought into the school. At the end of the competition, Corah was victorious. Sara came 2nd and Poppy 3rd. Congratulations to you all! Thanks to the judges, Miss Hayley Davies and Miss Charlotte Evans - the morning was spent tasting everyone's delicious creations.

We held our Thanksgiving Service at St Luke's Church, Llanllwni on Wednesday, 23rd of October, led by the Reverend Eileen Davies. The pupils performed brilliantly. Thank you to the pupils and to Reverend Eileen for a special service. Food and goods were collected for Llandysul Food Bank. Thank you to the parents and friends of the school for their donations.

A bingo evening was held at Llanllwni School on Thursday, 24th of October. Thank you to everyone who came to support and congratulations to the winners! A big thank you to the members of the school's PTA for organising such a pleasant evening.

Our Christmas Service will be held this year at St Luke's Church on Friday, 20th of December at 1.30pm. Everyone is welcome to come and see the pupils perform.

This term, an after school club has started with 'Actif-i-ti'. The club is held every Monday after school with the leader Lleucu. It is a great opportunity for the children to take part in sporting activities.

We will be holding a Christmas wreath making workshop at the school on Thursday evening, 28th of November, at 7pm, at Ysgol Llanllwni – please contact Caryl Jones to book a place on 07870 727195. A Tipit evening has been arranged on Saturday night, 30th of November at the Eagle, Llanfihangel-ar-arth at 7pm. The profit from both evenings will be going towards Cylch Meithrin Llanllwni and Ysgol Eglwys Llanllwni. A warm welcome to all.

We look forward to many upcoming activities during the term such as Children in Need day, carol singing, Christmas jumper day, Christmas dinner, Christmas party, pantomime, and much more.

Cylch Meithrin Llanllwni

Croeso mawr i Ifan a Rhiannon i'r Cylch Meithrin y tymor hwn. Maent wedi setlo'n dda gyda'i ffrindiau newydd.

Rydym wedi bod yn edrych ar y thema 'Yr Hydref'. Mae'r plant wedi bod yn brysur yn casglu mwyar duon a choginio crymbl blasus iawn. Hefyd, bu'r plant yn coginio cawl yn y Cylch Meithrin. Cafodd pawb llawer o hwyl wrth fynd ar daith o gwmpas llwybr Eglwys Llanllwni a sylwi ar liwiau'r holl dail. Cawsom gyfle i ddysgu llawer am yr Hydref

Diolch i bawb a ddaeth i'n parti Calan Gaeaf yn Neuadd yr Eglwys, Maesycrugiau. Braf oedd gweld llond lle o deuluoedd yn mwynhau! Bu'r plant yn cystadlu am y bwmpen orau, chwarae gemau, dawnsio, bwyta cŵn poeth a chacennau, a cherdded y llwybr frawychus! Roedd pawb yn edrych yn wych yn eu gwisgoedd dychrynllyd! Diolch i Fiona o'r Talardd am feirniadu ein cystadleuaeth pwmpen wedi'i gerfio a diolch i'r pwyllgor am drefnu'r digwyddiad. Codwyd swm o £375.80 tuag at y Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi.

Rydym wedi bod yn ffodus iawn i dderbyn grant Cyfalaf Bach o Gyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer adnewyddu ystafell y Cylch Meithrin. Rydym wedi peintio, ail wneud y llawr, gosod ardal gegin newydd a mwy. Rydym yn ddiolchgar iawn am y cyfle i wella'r ardal i'r plant sy'n mynychu'r cylch meithrin. Byddant yn elwa'n fawr o'r offer newydd.

Edrychwn ymlaen at nifer o weithgareddau sydd wedi eu trefnu ar gyfer tymor y Nadolig. Byddwn yn cynnal gweithdy creu torch Nadolig yn yr ysgol ar nos Iau, 28ain o Dachwedd am 7yh yn Ysgol Llanllwni – cysylltwch â Caryl Jones i archebu lle ar 07870 727195. Mae noson Tipit wedi trefnu ar nos Sadwrn, 30ain o Dachwedd yn yr Eagle, Llanfihangel ar-arth am 7yh. Bydd yr elw yn mynd tuag at Gylch Meithrin Llanllwni ac Ysgol Eglwys Llanllwni.

Croeso cynnes i bawb.

Yn ogystal â Gofal Plant Di-Dreth a'r Cynnig Gofal Plant i Gymru, mae Cylch Meithrin Llanllwni wedi cofrestru ar gyfer y rhaglen Dechrau'n Deg gyda Sir Gâr. Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen a ariannir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer plant rhwng 0 a 3 ac 11 mis a'u teuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd penodol yn Sir Gaerfyrddin, a ddiffinnir gan côd post. Os hoffech mwy o wybodaeth, cysylltwch â'r arweinydd Miss Nerys Thomas, ar 01559 395624. Diolch.

Llanllwni Cylch Meithrin

A big welcome to Ifan and Rhiannon to the Cylch Meithrin this term. They have settled well with their new friends.

We have been studying the 'Autumn' theme this term. The children have been busy collecting blackberries and baking a very tasty crumble. Also, the children in the Cylch Meithrin made soup. Everyone enjoyed their trip walking along the path around Llanllwni Church and noticing all the different colours of the leaves. They had the opportunity to learn a lot about Autumn.

Thank you to everyone who came to our Halloween party in the Church Hall, Maesycrugiau. It was nice to see so many families enjoying themselves! The children competed for the best pumpkin, played games, danced, ate hot dogs and cakes, and walked the spooky trail! Everyone looked great in their scary outfits! Thanks to Fiona from the Talardd for judging our carved pumpkin competition and thanks to the committee for organising the event. A sum of £375.80 was raised towards the Cylch Meithrin and Cylch Ti a Fi.

We have been very fortunate to receive a Small Capital grant from Carmarthenshire CC for the renovation of the Cylch Meithrin classroom. The walls have been freshly painted, a new floor has been laid, a new kitchen area installed, and more. We are very grateful for the opportunity to improve the area available for the children who attend the Cylch Meithrin. They will benefit greatly from the new equipment.

We look forward to a number of activities that have been organised for the Christmas term. A Christmas wreath making workshop will be held at Llanllwni School on Thursday evening, 28th of November, at 7pm, - please contact Caryl Jones to book a place on 07870 727195. A Tipit evening has been arranged on Saturday evening, 30th of November at the Eagle, Llanfihangel-ar-arth, at 7pm. The profit from both evenings will be going towards Llanllwni Cylch Meithrin and Llanllwni School.

A warm welcome to all.

In addition to Tax-Free Childcare and the Childcare Offer for Wales, Cylch Meithrin Llanllwni is registered for the Flying Start program with Carmarthenshire. Flying Start is a program funded by the Welsh Government for children between 0 and 3 to 11 months and their families who live in specific areas of Carmarthenshire, defined by postcode. If you would like more information, please contact the leader, Miss Nerys Thomas, on 01559 395624.

Cylch Ti A Fi Llanllwni

Mae Cylch Ti a Fi yn cael ei gynnal pob dydd Gwener yn Neuadd yr Eglwys, Maesycrugiau. Mae yna nifer o weithgareddau yn cael eu trefnu pob wythnos. Edrychwch ar dudalen Facebook y Cylch Ti a Fi am fanylion o'r hyn sydd ymlaen. Os hoffech mwy o wybodaeth, cysylltwch â'r arweinydd, Miss Nerys Thomas, ar 01559 395624. Diolch.

Llanllwni Cylch Ti A Fi

Cylch Ti a Fi is held every Friday in the Church Room, Maesycrugiau. There are a number of activities organised each week. Keep an eye on the Cylch Ti a Fi Facebook page for details of what's going on. If you would like more information, please contact the leader, Miss Nerys Thomas, on 01559 395624. Thank you.





Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-Arth Community Council

Clerc Mrs S. Anita Evans, Frongelli. New Inn, Pencader, Sir Gar. SA39 9AZ
ffôn: 01559 384266 e-bost: anitaevans9@hotmil.co.uk
cc-llanfihangel-ar-arth-cc.org.uk

Sul y Cofio

Ar fore Sul Tachwedd 10eg daeth tyrfa dda ynghyd o flaen y Gofgolofn ym Mhencader, i dalu teyrnged a chofio am y rhai a syrthiodd yn y ddwy ryfel byd.

Llywiwyd y gwasanaeth gan y Parchedig B. Timothy ac fe'i cynorthwywyd gan y Parchedig C.Bolton. Diolch yn fawr i'r ddau am eu presennoldeb ac am eu geiriau pwrpasol.

Diolch i Mr Robert Davies am ddod â'r uchelseinydd i'r gwasanaeth, sy'n hwyluso'r gwaith. Mae Robert yn gwneud hyn ers blynyddoedd.

Eleni, cawsom gwmni yr Heddwas Alaw Thomas i ofalu am y traffig. Bu yn gymorth mawr, a bu dim trafferth. Diolch yn fawr iawn iddi.

Gosodwyd rhithiau ar ran y Cyngor Cymuned gan y cadeirydd Mr.M. Griffiths a'r is-gadeirydd Miss R. Thomas.

Yn olaf, diolch i'r bobol a fynychodd y gwasanaeth a gwneud yr orig hon yn un o barch a theyrnged i'r rhai a gollodd eu bywydau.

Yn angof ni chant fod.

Heddwch i'w llwch.

Remembrance Sunday

On Sunday November 10th many people gathered at the War Memorial in Pencader, to remember those who fell in the two World Wars.

The service was led by the Rev. B. Timothy and assisted by the Rev. C. Bolton. We thank both for their presence and their suitable words.

Thanks go to Mr. Robert Davies who brought the loudspeaker system to facilitate the service. Robert has done this for many years.

This year PC Alaw Thomas attended and controlled the traffic throughout the service. We thank her very much and appreciate her presence.

Wreaths of poppies on behalf of the Community Council were placed by the chairman Mr.M. Griffiths and the vice-chairperson Miss R. Thomas.

Lastly, we must thank the people who attended the service and turned this short, quiet time into one of sincere and respectful tribute to the people who lost their lives.

They will never be forgotten.

Rest in peace.

Noson arswydus ym Mhafiliwn Pencader ar Galan Gaeaf

Roedd y neuadd wedi'i haddurno, roedd yr ysbrydion a'r ellyllon yn eu lle.

Roedd y gystadleuaeth bwyta toesen, siglo afalau, peintio wynebau a thatŵs a gemau eraill yn aros.

Roedd y symiau helaeth o ddanteithion siwgraidd yn griddfan i'w bwyta.

Roedd cŵn poeth yn mudferwi a chacennau arswydus a sudd pelen y llygad wedi'u gosod allan.

O na - yr unig beth oedd ar goll oedd y plant!

Yna fel petaent yn ymddangos trwy hud a lledrith mewn pwff o fwg, gwrachod, mumis, tywysogesau, zombies a sgerbydau . Pawb yn edrych yn fendigedig yn eu gwisgoedd gwisg ffansi.

Aeth gwobr arbennig i Stefan Joiner a Mila Davies oedd yn edrych yn anhygoel.

Diolch yn fawr iawn i'r pwyllgor am baratoi'r neuadd ar gyfer y noson frawychus gyda diolch arbennig i Christiane Racine am gyflenwi'r holl addurniadau a phropiau .

Rydyn ni'n meddwl bod pawb wedi cael amser bendigedig ond os na wnaethon nhw dydyn nhw erioed wedi cael eu gweld eto!



A spooky night at the Pencader Pavilion on Halloween

The hall was decorated, the ghosts and ghouls were in place.

The doughnut eating competition, apple bobbing, face painting and tattoos and other games were waiting.

The copious amounts of sugary delights were groaning to be eaten.

Hot dogs were simmering and spooky cakes and eyeball juice laid out.

Oh no - the only thing missing was the children!

Then as if by magic in a puff of smoke they appeared, witches, mummies, princesses, zombies and skeletons.

All looking fabulous in their fancy dress costumes.

A special prize went to Stefan Joiner and Mila Davies who looked amazing.

A big thank you to the committee for getting the hall ready for the fright night with a special thank you to Christiane Racine for supplying all the decorations and props.

We think everyone had a fab time, but if they didn't, they have never been seen again!





Nodiadau Natur

Edrychais allan o'n ffenest y bore 'ma i weld y ddrudwen gyntaf ar y porthwr adar. Yn ein gardd mae'r dyfodiad hwn yn arwydd o'r Gaeaf. Maen nhw'n weddol hwyr eleni – fel arfer maen nhw'n cyrraedd yn ystod wythnos olaf mis Hydref, ond mae'n dda eu gweld yn dychwelyd.



Gall drudwy dreulio eu haf mor bell i'r gogledd â chylch yr Arctig ac arfer mynd i Fôr y Canoldir am y gaeaf. Fodd bynnag, wrth i'r hinsawdd gynhesu maent yn mudo llai a llai, ac nid yw'n anghyffredin eu gweld yng Nghymru drwy gydol y flwyddyn y dyddiau hyn. Hyd at fis Mawrth byddwn yn gwrando arnynt yn clebran yn y coed ffawydd ger ein tŷ, bydd ein porthwr adar yn wag cyn 11 y bore, ac efallai y bydd y gwalch glas yn gwneud ychydig ohonynt yn bryd! Ychwanegiad i'w groesawu wrth i'r tymhorau newid.

Rydym hefyd wedi bod yn ddigon ffodus i gael dryw yn yr ardd dros y mis diwethaf. Er eu bod yn pwyso dim ond 10g ac yn llai na llygoden maent yn bendant yn rheoli'r ardd. Mae ein un ni wedi bod yn canu'n uchel ar ben y lein ddillad ac yn gofalu nad oes unrhyw aderyn (hyd yn oed brân) yn meiddio mynd i mewn i'n gardd.



Rwyf hefyd wedi bod yn edmygu'r newid dail dros y mis diwethaf – mae lliwiau'r hydref i'w gweld yn arbennig o dda eleni, sydd yn fy marn i yn ymwneud â'r diffyg glaw rydym wedi'i gael. Cyrhaeddodd y rhew cyntaf ar yr 11eg o Hydref eleni – fis cyfan ynghynt na'r wyth mlynedd arall yr wyf wedi byw yma. Mae'r diffyg gwynt dros yr wythnosau diwethaf wedi bod yn ddigon rhyfedd hefyd – nid y Gwyddgrug dwi'n nabod o gwbl, er dwi'n siŵr y cawn ni ein cyfran deg o dywydd stormus y gaeaf yma.

Gyda'r argyfyngau amgylcheddol a hinsawdd yr ydym ynddynt, a'r sefyllfaoedd gwleidyddol sy'n digwydd o amgylch y byd, mae'n dda tiwnio i mewn i'r hyn sy'n digwydd y tu allan – y tymhorau cyfnewidiol, trai a thrai rhagweladwy bywyd gwyllt. Ceisiwch gymryd peth amser i wisgo'n gynnes ac eistedd a gwerthfawrogi'r byd natur rhyfeddol sy'n newid yn barhaus y tu allan i'ch tŷ dros y misoedd nesaf.

Rwy'n dymuno tymor gaeaf clyd i chi!

Morgan Jones

Nature Notes

I looked out of our window this morning to see the first starling on the bird feeder. In our garden this arrival signifies Winter. They're quite late this year – normally they arrive in the last week of October, but it is good to see them return.

Starlings can spend their summer as far north as the Arctic Circle and used to head to the Mediterranean for winter. However, as the climate has warmed they are migrating less and less, and it isn't uncommon to see them in Wales all year round these days. Until March we will be listening to them chatter in the beech trees by our house, our bird feeder will be empty before 11 am, and the sparrowhawk might make a few of them a meal! A welcome addition as the seasons change.

We've also been lucky enough to have a wren in the garden over the past month. Despite only weighing 10g and being smaller than a mouse they definitely rule the garden. Ours has been singing loudly on top of the washing line and fending off any bird (even a crow) that dare to enter our garden.

I've also been admiring the changing leaves over the past month or so – the autumnal colours seem to be particularly good this year, which I think must be to do with the lack of rain we've had. The first frost arrived on the 11th October this year – a whole month earlier than the other eight years I have lived here. The lack of wind over the past few weeks has also been quite strange – not the Gwyddgrug I know at all, although I'm sure we'll have our fair share of stormy weather this winter.

With the environmental and climate crises that we are in, and the political situations happening around the world, it is good to tune into what is going on outside – the changing seasons, the predictable ebb and flow of wildlife. Try and take some time to wrap up warmly and sit and appreciate the wonderful ever-changing world of nature outside your house over the coming months.

I wish you a cosy winter season!

Morgan Jones

CFfI Llanllwni

Mis mwyaf cyffrous y flwyddyn - mis yr Eisteddfod. Buodd y clwb yn brysur iawn yn cystadlu yn Eisteddfod Sir Gar 2024. Dechreuodd y cystadlu bant ar nos wener 11/10 efo Sioned Howells yn dechrau ni bant gyd'r alaw werin, yna Hefin a Sioned yn cystadlu yn y sgets ac i orffen Cathrin, Sioned Bowen, Sioned Howells a Siriol yn yr Ensemble lleisiol. Llongyfarchiadau mawr iddynt, gyda'r sgets yn dod yn fuddigol (ymlaen i cystadlu Gymru) a'r esemble lleisol yn dod yn ail.



Nawr ymlaen i'r Eisteddfod ar ddydd Sadwrn 19/10 gyda sawl aelod yn cystadlu. Daeth ein meim yn fuddigol a mynd ymlaen i'r gystadleuaeth dros Gymru gyfan, wrth ochor y triawd doniol (Ifor, Hefin a Siriol) . Llongyfarchiadau i Owain Davies am ddod yn 2il yn y darn heb atalnodi ac i Einir George am ddod yn 3ydd yng nghystudleuthau gwaith cartref dan 16. Llongyfarchiadau mawr i'r parti llefaru am ddod yn gydradd 3ydd.



Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch y clwb yn Eglwys Annibynnol Blaen y Coed ar yr 22ain o Hydref ac yna swper Cynhaeaf ar Hydref 29ain yn neuadd Llangfihangel ar arth. Diolch i bawb ddaeth i gefnogi a helpu'r clwb.

Ymalen i C Ff I Eisteddfod Genedlaethol Cymru, gyda'r clwb yn cynrychioli y Sir mewn tair cystadleuaeth sef Meim, Sgets a Triawd Doniol. Buodd y clwb yn llwyddianus efo'r tri gyda'r meim a'r sgets yn dod yn drydydd a'r triawd doniol yn dod yn ail. Llongyfarchiadau i bawb a fuodd yn cystadlu.



Cawsom groeso gan glwb Llanddarog ar Dachwedd 11eg i berfformio rhai o'n heitemau llwyddiannus yn ei cyngerdd nhw i ddathlu'r Eisteddfod. Diolch yn fawr am y croeso a'r cawl blasus.

Llanllwni YFC

This was the most exciting month of the year - the month of the Eisteddfod. The club was very busy competing in the Carmarthenshire Eisteddfod 2024. The competition started on Friday night 11/10 with Sioned Howells starting us off with the folk tune, then Hefin and Sioned competing in the sketch and to finish Cathrin , Sioned Bowen, Sioned Howells and Siriol in the vocal ensemble. Huge congratulations to them, with the sketch winning (on to the National competition) and the vocal ensemble coming second.

Now on to the Eisteddfod on Saturday 19/10 with several members competing. Our mime won and went on to the Welsh National competition, alongside the funny trio (Ifor, Hefin and Siriol).

Congratulations to Owain Davies for coming 2nd in the passage without punctuation and to Einir George for coming 3rd in the under 16 homework competition. Congratulations also to the reciting party for coming joint 3rd.

The club's Thanksgiving Service was held at Blaen y Coed Independent Church on the 22nd of October followed by a Harvest dinner on the 29th of October in Llanfihangel ar Arth. Thanks to everyone who came to support and help the club.

Off to the YFC National Eisteddfod of Wales, with the club representing the County in three competitions namely Mime, Sketch and Funny Trio. The club was successful in the three competitions with the mime and sketch coming third and the funny trio coming second. Congratulations to everyone who competed.

We were welcomed by Llanddarog club on November 11th to perform some of our successful items in their concert to celebrate the Eisteddfod. Many thanks to them for the welcome and the delicious cawl.

Sefydliad y Merched Pencader

Ym mis Hydref, cwrddon ni ym Mhafiliwn Pencader i glywed Storïau Bywyd ac am 'Bring and Buy Sale'. Ar ôl ein cyfarfod ffurfiol, dywedodd Marilyn a Siân tipyn bach amdanyn nhw i ni, sut maen nhw wedi dod i fyw yma, ble roedden nhw'n gweithio, ble cwrddon nhw â'u gwŷr, ac ati... Roedd e'n ddiddorol iawn ac yn ddoniol i ddysgu cymaint o bethau am bobl ro'n ni'n meddwl ein bod ni'n nabod yn eithaf da.

Ym mis Tachwedd, cwrddon ni ym Mhafiliwn Pencader am ein cyfarfod cyffredinol. Ar ôl hynny, cyflwynodd Siân gwis traddodiadol yn garedig iawn. Cwis anhygoel bob tro.

I roi syniad cyflym i chi o'n cyfarfodydd nesa:

- ar 4ydd Rhagfyr, byddwn ni'n cael ein cinio Nadolig traddodiadol. Trafodwn ni raglen y flwyddyn nesa.

Fel arfer dyn ni'n cwrdd yn y Pafiliwn bob dydd Mawrth cynta y mis am 2 y.p. Croeso i chi i gyd! Dylech chi wirio o flaen llaw, achos efallai byddwn ni i ffwrdd am antur.

Am fwy o fanylion, ewch i'r blog: pencaderwi.wordpress.com, ysgrifennwch aton ni: pencaderwi@gmail.com neu galwch Molly: 07724 381 770.

Pencader Women's Institute

In October, we met at Pencader Pavilion for Life Stories and a Bring and Buy sale. After the formal meeting, Marilyn and Siân told us a bit about their lives, how they'd ended up living in Pencader, where they'd worked, met their husbands, etc. It was really interesting and fun to learn so many new things about people we feel we know pretty well.

Our November meeting is our AGM after which we had our traditional quiz, kindly provided by Siân who manages to find an excellent quiz every time.

For a quick overview of our next meetings:

- on 4th December, we will be having our Christmas Dinner at which we will discuss our programme for next year.

Pencader WI meetings are usually held in the Pavilion, at 2pm on the first Tuesday of the month, but it is worth checking with us first as we might be off on an adventure.

For more details, please consult our WordPress blog pencaderwi.wordpress.com, write to us at pencaderwi@gmail.com or call Molly on 07724 381 770.

Clwb Hanes Llanfihangel-ar-Arth

Cynhelir y cyfarfod cyntaf o'r Clwb Hanes am y tymor yn Neuadd yr Ysgol, Llanfihangel ar arth (SA39 9JH) ar y 21ain o Dachwedd am 7.30, pan fydd Lloyd Jones, Mynachlog yn sôn am Felinau Dyffryn Teifi a'r fro.

Ar y 19eg o Ragfyr gofynnir i bob aelod ddod ag eitem ddiddorol neu drysor personol ac i adrodd pwt am yr eitem.

Ar y 23ain o Ionawr, bydd Rhys Davies, Beulah, yn rhoi sgwrs ar hanes lleol (testun i'w gadarnhau).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Fioled Jones

facebook.com/groups/946110413311471

Llanfihangel-ar-Arth History Club

The first meeting of the History Club will be held in Neuadd yr Ysgol, Llanfihangel arth (SA39 9JH) on the 21st of November at 7.30, when Lloyd Jones, Mynachlog will talk about the Mills of the Teifi Valley and the surrounding area.

On the 19th of December, members are asked to bring an interesting item or personal treasure and to tell its story.

On the 23rd of January, Rhys Davies, Beulah, will give a talk on local history (title to be confirmed).

For further information conrtact Fioled Jones 07791146562

facebook.com/groups/946110413311471

Stampiau wedi eu defnyddio

Mae Sefydliad Cenedlaethol y Deillion yn ailgylchu stampiau Prydeinig a Thramor. Gwerthir wrth bwsyau gan amlaf. Disgwylir derbyn £10 y kilo am stampiau Prydeinig a £15 am stampiau tramor.

Mae'r arian a dderbynnir yn cael ei wario ar gynorthwyo deillion a'r rhannol ddall. Didolir y stampiau Prydeinig a Thramor i bentyrrau gan adael tua 1cm ar amlen o amgylch pob stamp.

Mae 3kg o stampiau newydd gael eu hanfon, felly wnewch chi barhau i gadw stampiau os gwelwch yn dda. Os medrwch helpu, ewch a'ch stampiau at Garej Windy Corner neu gadewch nhw yn Glyncoch, Alltwalis.

Ffon: 01559 384499

Diolch *Frances Fuller*

Used Postage Stamps

The Royal National Institute for the Blind recycle used British and Foreign stamps. They are usually sold by weight; the British can be expected to sell for £10 per kilo and the foreign stamps for up to £15 per kilo. The money raised goes to help blind and partially sighted people. Stamps are sorted into piles of British and Foreign and it helps to leave about 1cm of envelope around each stamp.

A parcel with 3kg of stamps have just been sent off, so please continue to save your stamps.

If you can help, please take them to Windy Corner Garage or drop them off at Glyncoch, Alltwalis.

Tel: 01559 384499

Thank you *Frances Fuller*

Newyddion Alltwalis

Ni wedi cael rhai misoedd brysur yn ddiweddar. Cynhaliwyd Helfa Drysor car nol yn Mis Medi lle cafom llawer o geir yw'n cefnogi. Fe godwyd £145 tuag at Ambiwlans Awyr. Diolch I bawb a ddaeth i'n cefnogi.

